



## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

**Estyniad newydd i'r ysgol** – mae'r ysgol wedi derbyn newyddion cyffrous bod estyniad newydd gwerth £5.7 miliwn ar y gweill ar gyfer yr Ysgol Gymraeg. Mi fydd hyn yn creu deg dosbarth newydd (yn lle'r dosbarthiadau dros dro), canolfan iaith, ystafell staff ac ystafelloedd cefnogi. Rydym yn falch iawn o'r newyddion yma ac yn ddiolchgar i staff yr Awdurdod Addysg am eu gwaith yn paratoi'r cais. Rhagor o fanylion i ddilyn.

**Ymarferion Eisteddfod yr Urdd** – mae'r ymarferion ar gyfer y grwpiau dawnsio, parti llefaru, ymgom, cerddorfa a'r côr wedi cychwyn bellach ers hanner tymor. Mi fydd ymarferion ar gyfer y gân actol yn cychwyn ddydd Mercher, Mawrth 9fed, 3.30 – 4.45yp

**Clwb yr Urdd** yn ail gychwyn ar nos Fercher, **Mawrth 16eg**, 3.30 – 4.30 ar gyfer Bl 2, 5 a 6  
Mawrth 23ain – Bl 1, 3 a 4  
Mawrth 30ain Bl 2, 5 a 6  
Ebrill 6ed – Bl 1, 3 a 4

**Rhagbrofion canu a llefaru unigol ar gyfer ysgolion cylch Aberystwyth** - cofiwch fod hyn yn digwydd yn yr Ysgol Gymraeg ag Ysgol Plascrug ar ôl ysgol ar ddydd Gwener, Mawrth 11eg. Mi fydd yr rhai sydd wedi cofrestru yn derbyn slot o 5 munud ar gyfer perfformio yn y rhagbrofion - yn sgîl cyfyngiadau covid-19 ni fydd cynulleidfa.

**Eisteddfod Ddawns, dydd Mawrth, Mawrth 22ain** – unigolion am 4 o'r gloch yn Aberaeron. Mi fydd y beirniad yn ymweld â'r ysgol cyn gwyliau'r Pasg er mwyn gweld y grwpiau dawnsio.

**Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Ceredigion – dydd Sadwrn, Mawrth 26ain** ym Mhontrhydfendigaid – mae'n debygol taw dim ond unigolion, y côr, yr ymgom a'r parti llefaru fydd angen mynchu'r eisteddfod rhanbarth ym Mhontrhydfendigaid. Mi fydd y gân actol, y gerddorfa a'r ensemble yn cael eu gweld yn yr Ysgol Gymraeg cyn gwyliau'r Pasg, rhagor o fanylion i ddilyn.

**Arddangosfa Wyddoniaeth yn y Brifysgol** - mi fydd disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6 yn cerdded lan i'r Gowell ar safle'r Brifysgol ar gyfer arddangosfa wyddoniaeth ar fore dydd Mercher, Mawrth 16eg. **Cofiwch ddod â mwgwd**, côt law ac esgidiau addas. Mi fydd y disgyblion yn dychwelyd erbyn amser cinio.

**Gwersi Nofio** – mi fydd gwersi nofio i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn unig yn ail gychwyn ar ddydd Iau, Mawrth 17eg. Mi fydd dosbarth 6E yn nofio ar ddydd Iau, Mawrth 17eg a 6J ar ddydd Iau, Mawrth 24ain.

**Sioe Mewn Cymeriad** - mi fydd disgyblion Blynnyddoedd 3 a 4 yn cael cyfle i weld perfformiad theatrig o 'Syr Ifan' yn yr ysgol ar ddydd Gwener, Mawrth 18fed. Mi fydd yr ysgol yn talu costau'r perfformiad.

**Gwyliau'r Pasg** – mi fydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Pasg ar ddydd Iau, Ebrill 7fed ac yn ail agor ar ddydd Iiun, Ebrill 25ain

**Symptomau** – cofiwch na ddylech ddanfon eich plant i'r ysgol os ydynt yn arddangos unrhyw symptomau coronafeirws.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**R C Williams, Pennaeth**  
**07/03/2022**



## Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

**New extension for the school** - the school has received exciting news that a new £5.7 million extension is planned for Ysgol Gymraeg. This will create ten new classrooms (to replace temporary classes), a language centre, staff room and support rooms. We are very pleased with this news and are very grateful to the Education Authority staff for their work in preparing the application. More details to follow.

**Urdd Eisteddfod Rehearsals** - rehearsals for dance groups, recitation party, ymgom, orchestra and choir have now started since half term. Rehearsals for cân actol will begin on Wednesday, March 9th, 3.30 - 4.45pm

**Urdd Club** resumes on Wednesday, March 16th, 3.30 - 4.30pm for Yr 2, 5 and 6

March 23rd - Years 1, 3 and 4

March 30th Year 2, 5 and 6

April 6th - Years 1, 3 and 4

**Singing and recitation prelims for Aberystwyth area schools** – please remember that prelims will take place at Ysgol Gymraeg and Plascrug after school on Friday, March 11th. Those who have registered will be given a 5 minute slot to perform in the preliminary rounds - due to covid-19 restrictions there will be no audience.

**Dance Eisteddfod, Tuesday, March 22nd** - individuals at 4 o'clock in Aberaeron. The judge will visit the school before the Easter holidays to see the dance groups.

**Ceredigion Regional Urdd Eisteddfod - Saturday, March 26th** at Pontrhydfendigaid - it is likely that only the individuals, the choir, the ymgom and the recitation party will need to attend the regional eisteddfod in Pontrhydfendigaid. Cân actol, orchestra and the ensemble will be seen at Ysgol Gymraeg before the Easter holidays. more details to follow.

**Science Exhibition at the University** - Years 5 and 6 will be walking up to the Cage on the University site for a science exhibition on Wednesday morning, March 16th. **Please remember to bring a face mask**, a raincoat and suitable footwear. The pupils will return by lunchtime.

**Swimming Lessons** - swimming lessons for Year 6 pupils only will resume on Thursday, March 17th. Year 6E will swim on Thursday, March 17th and 6J on Thursday, March 24th.

**Mewn cymeriad theatrical performance** - Years 3 and 4 pupils will have the opportunity to see a theatrical performance of 'Syr Ifan' at the school on Friday, March 18th. The school will pay the costs of the performance.

**Easter Holidays** - the school will close for the Easter holidays on Thursday, April 7th and re-open on Monday, April 25th

**Symptoms** - remember that you should not send your children to school if they show any symptoms of coronavirus.

**If you have any worries regarding your child's wellbeing or education, then please contact me immediately.**

**R C Williams, Headteacher**  
**07/03/2022**